**Dyddiau'r Goron Ddrain**

Ran amlaf y teitl a roddir i emyn grymus T. Rowland Hughes yw'r teitl 'Tydi, a Roddaist liw i'r Wawr'. Ond mae'r teitl a roddwyd uwchben y myfyrdod hwn yr un mor ddilys. Bedyddiwr o argyhoeddiad oedd T. Rowland Hughes a anwyd yn Llanberis yn 1903, ac a gafodd yrfa ddisglair fel myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru ym Mangor a Phrifysgol Rhydychen.

Gwelodd yn y tri degau ddioddefaint y glöwr a'r chwarelwr, cyfnod diweithdra ac ecsodus allan o'r cymoedd i Loegr. Bu am ddwy flynedd yn dysgu yn Aberdâr a bu'n llygad-dyst o ddyddiau'r 'goron ddrain a chur a chroes'. Lluniodd emyn 131 yn *Caneuon Ffydd* fel diweddglo ar gyfer sgript rhaglen BBC a ddarlledwyd Ddydd Gŵyl Ddewi 1938 pan oedd ef ar staff y Gorfforaeth yng Nghaerdydd. Cyfansoddodd Arwel Hughes dôn arbennig ar gyfer y geiriau ar y teitl 'Tydi a Roddaist' a byth oddi ar hynny daeth yr emyn yn rhan o'n cynhysgaeth ysbrydol. Gweddi ydyw ar gyfer pobl mewn dyddiau o adfyd economaidd neu o afiechyd poenus. Gwybu'r awdur am afiechyd mawr ei hun a bu farw yn gynamserol er colled enfawr i'n llenyddiaeth Gristnogol.

Hawdd i bobl y goron ddrain golli golwg ar fawredd y Duw Hollalluog, fel y mae'r emynydd yn cydnabod yn ei bennill cyntaf, hyd yn oed pan mae'n fachlud, a phan mae'r gwanwyn yn treiddio trwy'r greadigaeth. Ceir yr un neges yn yr ail bennill, a dysg doethineb yr Ysgrythur i ni mai hanfod gwrando ar nant mynydd, gweld y goedwig a chlywed cân yr ehedydd ydyw ein hargyhoeddi o bresenoldeb Duw yn ein plith. Ond y trydydd pennill sydd yn uchafbwynt pwerus wrth iddo'n cyfeirio at Galfaria, a chofio'r 'Gŵr a fu gynt o dan hoelion' dros y ddynoliaeth.

'Tydi, a glywaist lithriad traed
Ar ffordd Calfaria gynt,
Tydi, a welaist ddafnau gwaed
Y Gŵr ar ddieithr hynt,
O cadw ni rhag dyfod oes
Heb goron ddrain na chur na chroes.'

***D. Ben Rees***